

VAUGHAN (TEULU), Corsygedol, plwyf Llanddwye, Sir Feirionnydd.

Rhoddir ach y teulu hwn, a fu'n bur enwog yn hanes Cymru, gan **Lewis Dwnn**, dirprwy-herodr, a chan achyddwyr eraill. Fel rheol dechreua'r tabl achau gydag uniad **Osbwrn Wyddel** â merch ac aeres hen deulu Cymreig Corsygedol; yr oedd y ferch hon yn ward **Llywelyn Fawr**. Pan ymwelodd **Dwnn** â Chorsygedol yn 1588, GRIFFITH VAUGHAN, a oedd yn siryf Meirionnydd y flwyddyn honno, oedd pen y teulu. Ail-adeiladolodd Griffith Vaughan Corsygedol yn 1592/3, ac adeiladolodd 'Gapel Corsygedol' ym'r rhan o eglwys Llanddwye; bu farw 9 Tachwedd 1616 a chladdwyd ef yn eglwys Llanddwye. Bu GRIFFITH VAUGHAN cynharach nag ef yn amddiffyn castell Harlech gyda **Dafydd ab Ieuan ab Einion**, ei gefndref, yn erbyn plaid teulu York; dywedir mai' Griffith Vaughan hwn a adeiladolodd 'Y Ty Gwyn yn Bermo' er mwyn hwyluso cyfathrach dros y môr (rhwng Sir Feirionnydd a Sir Benfro) â **Siaspar Tudur, iarl Pembroke**, ewythr **Henry o Richmond** (y brenin **Harri VII** wedi hynny), pan oeddid yn paratoi ar gyfer goresgyn Prydain (cyn brwydr Bosworth, 1485); ar hyn gweler E. Rosalie Jones, *Hist. of Barmouth*, a hefyd 'Cwyddydd moliant Gruffydd Vychan ap Gruffydd ab Einion o Corsygedol, rhywelwyr gyda'r brenin Harri VII gan **Tudur Penllyn**. Dywed Robert Vaughan, Hengwrt, i **Siaspar Tudur** fod yn aros yng Nghorsygedol ac ychwanega i **Henry Richmond** ei hunan fod yn aros yno hefyd, 'as some say.' Gwraig y Griffith Vaughan hwn oedd Lowri, nith i **Owain Glyndŵr**.

Dyma ach Griffith Vaughan (1588) yn ôl **Dwnn**: Griffith ap Richard ap Rhys ap William ap Griffith, 'sgweier o gorff **Henry VII**' a thrydydd mab Griffith ab Einion ap Griffith ap Llewelyn ap Cynwrig ab Osbwrn Wyddel. Ceir y disgyniadau o 1588 ymlaen mewn llyfrau a llawysgrifau achau: e.e. gan **J. E. Griffith, Pedigrees**, 279. Ceir yn *Archaeologia Cambrensis*, VI, ii, 1-16, olwg gyffredinol ar hanes y teulu gan **W. W. E. Wynne**, Peniarth, wedi ei seilio (gyda nodiadau gwerthfawr) ar gopi gan **Angharad Llwyd** o lawysgrif a ysgrifennwyd yn 1770 gan William Vaughan, 'penillywydd y Cymmrordorion (isod). Fel y dengys **Edward Breese** (*Kalendars of Gwynedd*), bu llawer o'r Fychaniad ym uchel siryfion (Sir Feirionnydd a Sir Gaernarfon), yn aelodau seneddol, ac yn 'Custodes Rotulorum.' Daeth RICHARD VAUGHAN yn gwnstabl castell Harlech ym mis Gorffennaf 1704; hanner canrif yn ddiweddarach dewiswyd ei nai ef, EVAN LLOYD VAUGHAN (bu farw 1791), i'r un swydd.

Yr oedd WILLIAM VAUGHAN (bu farw 1633) yn siryf Sir Gaernarfon yn 1613 a 1632; ailadeiladolled o Plas Hên, Llanystumdwy, 1607, ac adeiladolodd y gatws yng Nghorsygedol yn 1630. Yr oedd yn gyfaill i Ben Jonson, y bardd, a anfonodd gopi o'i weithiau argraffedig yn rhodd iddo, a cheir llythyr oddi wrth Vaughan at **James Howell** yn *Epistolæ Ho-Eliae*. Mab iddo ef oedd RICHARD VAUGHAN (bu farw 1636), yr aelod seneddol dros Feirionnydd a ddaeth mor adnabyddus yn Llundain oblegid ei fod mor eithriadol o dew. Priododd Richard Vaughan Anne, ferch (**Syr John Owen**, Clenennau). Priododd WILLIAM VAUGHAN (bu farw 1669), ei fab yntau, Anne, ferch teulu **Nannau**, uniad rhwng dau deulu yr oedd eisoes grym gyfathrach rhwngdynt. Bu farw eu mab hyaf hwy, GRIFFITH VAUGHAN, yn 1697 heb etifed; eithr cadwyd y llinach ymlaen ym mherson ei prawd RICHARD VAUGHAN (bu farw 1734). Trwy ei wraig Margaret, merch **Syr Evan Lloyd**, Bodridis, sir Ddinbych, daeth Richard Vaughan yn dad WILLIAM VAUGHAN (1707 - 1775; isod). Daeth ei wraig ef, Catherine ferch **Hugh Nanney**, yn unig etifeddes Nannau maes o law. Unig blentyn William Vaughan ac Anne (Nanney) oedd ANN VAUGHAN, a briododd David Jones Gwynne, Taliaris, Sir Gaerfyrddin. Ann oedd yr aeres olaf yn y llinell uniongyrchol; bu hithau farw 16 Mawrth 1758, heb etifed. Cyrrchiolydd gwrywol diwethaf y teulu oedd EVAN LLOYD VAUGHAN, brawd William Vaughan, ac aelod seneddol dros Feirionnydd. Pan fu ef farw, ar 4 Rhagfyr 1791, aeth Corsygedol a'r stadau a oedd yn gysylltiedig â hi yn eiddo ei nith, Margaret, gwraig **Syr Roger Mostyn, barwnig**.

Yn ystod y canrifioedd bu aelodau o'r teulu yn noddwyr llenyddiaeth Gymraeg a cheid croeso yng Nghorsygedol i feirdd yn clera; gweler **NLW MS 3061D**. Fel y gallid disgwyl canwyd llawer i'r teulu gan y beirdd a adnabyddir wrth yr enw '**Phylipaidd Arduddy**'. Yr oedd eu cartrefi hwynt yn weddol agos i Corsygedol. Canodd **Siôn Phylip** (bu farw 1620) tuag 16 o gywyddau, etc., i'r teulu; canodd **Gruffydd Phylip** (bu farw 1666), mab **Siôn Phylip** a 'bardd teulu' Corsygedol, tua 19; canodd **Phylip Siôn Phylip** (bu farw c. 1677), mab arall i **Siôn Phylip**, un cywydd. Y bardd a oedd yn byw agosaf at Corsygedol ydodeo **William Phylip**, Hendrefechan (bu farw Chwefror 1670); bu ef yn helpu Siôn Bryncir i ysgrifennu 'Cwydd cyngor' i nai hwnnw, sef i William Vaughan. Y mae i un cywydd gan **Gruffydd Phylip** bennawd diddorol - 'I Wmfire Davies o Landyfrydog y Mon dros Rich: Vn o Gorsygedol i ofyn 100 o gywydde D[afydd] ap G[wilym].' Gwyddys bod rhai o'r Fychaniaid yn casglu llawysgrifau a llyfrau. Pan ddaeth llawysgrifau Cymraeg Plas Mostyn (Sir y Flint) i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn 1918 yr oedd yn eu mysg y leiaf 10 (os nad 11) o gyfrolau a fuasai gynt yng Nghorsygedol, sef **NLW MS 3034B**, **NLW MS 3038B**, **NLW MS 3039B**, **NLW MS 3047C** ('Llyfr Coch Nannau'), **NLW MS 3048D** ('Llyfr Gwyn Corsygedol'), **NLW MS 3050D**, **NLW MS 3056D**, **NLW MS 3058D**, **NLW MS 3059D** ('Y Llyfr Gwyrd'), **NLW MS 3060D**, a **NLW MS 3061D** (y llawysgrif hon yn bwysig o safbwys hanes y teulu). Cadwyd y traddodiad llenyddol ymlaen yn gryw gan William Vaughan (1707 - 1775), aelod seneddol dros sir Feirionnydd o 1734 hyd 1768, aргlywydd-raglaw a 'Custos Rotulorum' y sir honno, a 'Phenillywydd' cyntaf Anrhydeddus Gymdeithas y Cymmrordorion. Cawsai ei addysg mewn ysgolion yng Nghaera a Llundain ac yng Ngholeg S. Ioan, Caergrawnt. Pan gyhoeddodd **Huw Jones** (o Langwm) ei **Diddanwch teuluaid** yn Llundain yn 1763, i William Vaughan a gyflwynodd y gwaith. Ceir hefyd lawer o gyfeiriadau at Vaughan yn llythrau **Moriyaidd** Môn. Yn dilyn un yonion yn **Diddanwch** ... ar ôl 'Caniad y Gog i Feirionnydd,' cân adnabyddus **Lewis Morris**, ceir trosiad Saesneg o waith William Vaughan. Argraffwyd apêl Gymraeg Vaughan at etholwyr Meirionnydd yn etholiad 1747 gan **Edward Breese** yn ei *Kalendars of Gwynedd*.

Awdur

Syr William Llewelyn Davies, (1887 - 1952)

Ffynonellau

Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarenceux and Norroy, two kings at arms(Llandovery 1846), ii, 218-9

E. Breese, *Kalendars of Gwynedd* (1873)

J. H. Davies (gol.), *The Letters of Lewis, Richard, William, and John Morris, of Anglesey, (Morrisiaid MÃ'n) 1728-1765 (1907-9)*, cyf. I, cyf. II

G. J. Williams, *Llythyrau at Ddafydd Jones o Drefriw*

J. E. Griffith, *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914)

W. Ll. Davies, 'Phylipaidd Arduddy,' yn Y Cymmrordor, xl

Archifau LIGC: **NLW MS 3061**

Archifau LIGC: *Peniarth MS 254: Various fragments*

Reports of the Historical Manuscripts Commission, R.W.M., I, i

Archaeologia Cambrensis, IV, vi, 1-16

Y Cymmrordor, 1951, 53-6 (a darlun)

Further reading

Coflein: [Cors-y-Gedol Hall](#)

Coflein: [Cors-y-Gedol gatehouse](#)

The History of Parliament: [VAUGHAN, Richard II \(c.1665-1734\), of Cors-y-Gedol, Merion.](#)

The History of Parliament: [VAUGHAN, Richard \(c.1665-1734\), of Corsygedol, Merion.](#)

Wikipedia Article: [Richard Vaughan \(Corsygedol\)](#)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20748887

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/>

[PDF](#) [Argraffu](#) [Cyfeirnodi](#)

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian am ragor o wybodaeth](#).

frannu

Arddull APA



Davies, W. Ll., (1953). VAUGHAN (TEULU), Corsygedol, plwyf Llanddwywe, Sir Feirionnydd.. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 16 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-VAUG-COR-1250>

[Copio i'r](#) [clipwrd](#)

Preifatrwydd a Chwcius
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC
NLW

LLYFRGEL
THE NATION



Noddar gan
Llywodraeth Cymru
Supported by
Welsh Government